

**Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru**  
**Cytundeb Rheoli**

## **Cynnwys**

### **1. Diben Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru**

### **2. Llywodraethu ac Atebolrwydd**

2.1 Traddodiadau Cyfreithiol Pwerau a Dyletswyddau

2.2 Atebolrwydd, Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

2.3 Trefniadau Cyfrifyddu ac Archwilio

### **3. Trefniadau Rheoli**

3.1 Cyffredinol

3.2 Staff Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

3.3 Fframwaith Cynllunio

3.4 Rheoli Perfformiad

3.5 Adolygiad Cyfnodol

3.6 Is-gwmnïau a Mentrau ar y Cyd

### **4. Cyfrifoldebau Ariannol**

4.1 Gwariant

4.2 Cyllid

4.3 Rheoli Arian Parod

### **5. Gofynion Ariannol Eraill**

5.1 Rheoli Risg

5.2 Economi, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – arfarnu, ymchwil a gwerthuso

## **Rhestr o Atodiadau**

- Atodiad 1 Rhestr o Arweiniad Corfforaethol y Llywodraeth Gyfan a Chyfarwyddiadau
- Atodiad 2 Crynodeb o'r Gofynion Cymeradwyo a'r Terfynau Dirprwyo
- Atodiad 3 Caffael a Thaliadau Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

## **Diben Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru**

1. Sefydlwyd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru o dan Adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nodir ei amcanion yn yr Erthyglau Cymdeithasu, ac i gefnogi'r Aelod-Warantwr (Gweinidogion Cymru) i gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys y rhai o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adran 1 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, yn benodol:
  - gweithredu mewn ffordd broffesiynol a chynghorol mewn cysylltiad â phrosiectau trafndiaeth yng Nghymru drwy ddarparu cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru;
  - cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau o ran camau statudol a gweinyddol y paratodau, safonau peirianeg, adeiladu, priodoldeb a rheolaeth ariannol a chytundebol drwy ddarparu cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru;
  - darparu gwasanaethau rheoli prosiectau mewn cysylltiad â phrosiectau trafndiaeth yng Nghymru drwy roi cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru; ac
  - ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu sydd, ym marn yr Aelod-Warantwr, yn angenrheidiol neu'n ddymunol ar gyfer hyrwyddo'r Amcanion gan gynnwys, heb gyfyngiadau, ddarparu unrhyw gymorth y mae'r Aelod-Warantwr ei angen mewn cysylltiad â hynny.
2. Wrth gyflawni'r uchod, mae'n rhaid gosod nodau strategol Llywodraeth Cymru o fewn cyd-destun, a'u gosod o fewn cynllun busnes y cwmni gan ymateb i'r llythyr cylch gwaith blynyddol. Caiff unrhyw newidiadau i'r Cytundeb Rheoli eu gwneud drwy'r Tîm Rheoli a gytunwyd gan y Bwrdd.

## **Llywodraethu ac Atebolrwydd**

### ***Traddodiadau Cyfreithiol Pwerau a Dyletswyddau***

3. Y pwerau cyfreithiol perthnasol yw Adran 1 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 ynghyd ag adran 60 (1) (a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pwerau Gweinidogion Cymru yw'r rhain i wneud unrhyw beth yr ystyrir ganddynt yn briodol i hybu neu wella lles economaidd Cymru.
4. Yn ogystal â hyn, mae Adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru ffurfio cwmni (megis cwmni hyd braich) i ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer, pan amcangyfrifir bod hynny'n hwyluso, yn gydnaws neu'n gysylltiedig ag arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Cwmni a gyfyngir drwy warant yw Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru (rhif 9476013); caiff ei lywodraethu gan ei Erthyglau Cymdeithasu.

## ***Atebolrwydd, Swyddogaethau a Chyfrifoldebau***

### *Gweinidogol*

5. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (y Gweinidog) yn gyfrifol am oruchwylio Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Gweinidog yn gosod y fframwaith polisi ar gyfer Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei weithgareddau. Bydd y Prif Weinidog a'r Gweinidog yn cwrdd â Chadeirydd Bwrdd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru bob blwyddyn i adolygu perfformiad a thrafod gweithgareddau'r presennol a'r dyfodol.

### *Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru*

6. Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gweinidogion Cymru. Mae ganddo gyfrifoldebau a bennir gan Drysorlys EM, ac mae'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol) ac i Senedd y DU (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin)

### *Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru a Chadeirydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru*

7. Dynodwyd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Bydd yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw drwy ei benodiad yn Gadeirydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.
8. Mae ef yn bersonol gyfrifol am stiwardiaeth briodol yr arian cyhoeddus dan ei ofal; am weithrediadau a rheolaeth o ddydd i ddydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru; ac am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Bydd y Cadeirydd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros weinyddu'r rhain i'r Rheolwr Gyfarwyddwr. Ond bydd yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Gweinidog am weithredoedd a phenderfyniadau'r cwmni. Yn benodol, ond nid yn gyfan gwbl:
  - Sicrhau bod polisiau a chymau gweithredu'r bwrdd yn cefnogi polisiau strategol ehangach y Gweinidog a bod ei faterion yn cael eu cynnal gydag uniondeb. Lle bo hynny'n briodol, mae'n rhaid i'r polisiau a'r camau gweithredu hyn gael eu lledaenu ar draws Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru; gan lunio strategaethau'r bwrdd;

- Sicrhau bod y bwrdd, wrth wneud penderfyniadau, yn cymryd ystyriaeth briodol o ofynion rheoli statudol ac ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- Cymryd camau, fel y bo'n briodol, os yw'r bwrdd neu unrhyw gyfarwyddwr yn ystyried ffordd o weithredu sy'n cynnwys trafodiad a fyddai, ym marn y Cadeirydd, yn torri gofynion priodoldeb neu reoleidd-dra, neu nad yw'n cynrychioli gweinyddu pwylllog neu ddarbodus, neu, effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd, ymarferoldeb amheus neu ei fod yn anfoesol.
- Hyrwyddo defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- Sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra a phriodoldeb; a
- Chyflwyno barn y bwrdd i'r cyhoedd.

9. Rhaid i'r Cadeirydd, hefyd:

- Sicrhau bod holl aelodau'r bwrdd yn cael eu briffio'n llawn ar delerau eu penodiadau a'u dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- Sicrhau ei fod ef neu hi, ynghyd ag aelodau eraill y bwrdd, yn cael yr hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant ar reolaeth ariannol a gofynion adrodd cyrff y sector cyhoeddus ac ar y gwahaniaethau mewn arferion a allai fodoli rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- Sicrhau bod gan y bwrdd gydbwysedd sgiliau priodol i gyfarwyddo busnes Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, a chynghori'r Gweinidog, mewn achosion pan mae'n rhaid iddo/iddi wneud apwyntiadau, ynghylch anghenion Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru pan fo swyddi gwag yn codi ar y bwrdd;
- Asesu perfformiad aelodau unigol y bwrdd; a
- Sicrhau bod cod ymddygiad ar gyfer aelodau'r bwrdd yn gyson â Chod Llywodraeth Cymru.

10. Mae'n rhaid cyfeirio unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng swyddogaethau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru a'i swyddogaeth fel Cadeirydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i Gyfarwyddwr Llywodraethu Llywodraeth Cymru, sef prif ffynhonnell y cyngor ar gyflawni cyfrifoldebau mewn cysylltiad â Chwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

11. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn gyfrifol am:

- Llofnodi'r cyfrifon a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw o'r cyfrifon;
- Sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu darparu a'u cyflwyno yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu;
- Llofnodi datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu er mwyn eu cynnwys yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol;
- Llofnodi'r Datganiad Llywodraethu er mwyn ei gynnwys yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol;
- Cynghori'r bwrdd ynglŷn â pherfformiad Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn erbyn ei nodau a'i amcanion;
- Sicrhau bod ystyriaethau ariannol yn cael eu hystyried yn llawn gan y bwrdd ym mhob cam wrth ddod i benderfyniadau a'u gweithredu, ynghyd â sicrhau bod technegau arfarnu ariannol addas yn cael eu dilyn;
- Sicrhau bod system rheoli risg yn cael ei chynnal i lywio penderfyniadau cynllunio ariannol a gweithredol ac i helpu i gyflawni amcanion a thargedau;
- Sicrhau bod rhagolygon amserol a gwybodaeth fonitro am berfformiad a chyllid yn cael eu darparu ar gyfer y bwrdd;
- Sicrhau bod y bwrdd yn cael ei hysbysu'n brydlon os yw gorwariant neu danwariant yn debygol a bod camau unioni'n cael eu cymryd;
- ymdrin ag achosion sy'n ymwneud ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Sicrhau bod y bwrdd yn cael gwybod am broblemau sylweddol cyn gynted â phosibl; a
- Rhoi i'r bwrdd yr wybodaeth am berfformiad a gwariant Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol gan y bwrdd o fewn rheswm.

### ***Bwrdd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru***

12. Penodir y Cadeirydd ac aelodau'r bwrdd yn unol ag Erthyglau Cymdeithasu Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac maent yn gyfrifol ar y cyd am:

- Ddarparu arweiniad effeithiol; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion heriol;
- Hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- Sicrhau bod gweithgareddau Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol;

- Monitro perfformiad i sicrhau bod Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn a
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu sicrwydd ynglŷn â rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Disgwylir i'r bwrdd fodloni ei hun ynglŷn ag effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol a'r systemau rheoli risg.

13. Rhennir cyfrifoldebau'r Cadeirydd fel Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru gydag aelodau eraill y bwrdd y disgwylir iddynt gefnogi'r Cadeirydd yn y swyddogaeth hon a gweithredu'n unol â'r cyfrifoldebau hynny wrth gyflawni eu dyletswyddau eu hunain. Yn benodol, ond nid yn gyfan gwbl, mae'r bwrdd yn gyfrifol am:

- Sefydlu a chyflwyno nodau strategol ac amcanion Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gyson â'i ddiben cyffredinol ac o fewn y polisi a fframwaith adnoddau a bennir gan y Gweinidog;
- Sicrhau bod y Gweinidog yn cael gwybodaeth lawn am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru neu natur gyraeddadwy ei dargedau, a'r camau sydd eu hangen i ymdrin â newidiadau o'r fath;
- Sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol mewn cysylltiad â'r defnydd o arian cyhoeddus; ei fod yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â'r defnydd o arian cyhoeddus; ac, wrth wneud penderfyniadau, ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Sicrhau ei fod yn cael ac yn adolygu gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud â rheoli Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn rheolaidd; ei fod yn cael gwybod am unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn brydlon; a, lle bo hynny'n berthnasol, darparu sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog fod camau adferol priodol wedi eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon o'r fath; a
- Dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser, i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill.

14. Caiff y bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb am weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd i'r staff. Ond yn y pen draw, mae'n parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am yr holl faterion hynny. Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru gynnal rhestr o faterion sydd wedi eu cadw ar gyfer penderfyniad gan ei fwrdd yn ogystal â chynllun dirprwyo a gymeradwywyd gan y bwrdd.

15. Wrth ymgymryd â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, bydd aelodau'r bwrdd yn cydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol a nodir yn Neddf Cwmnïau 2006. Mae'r Ddeddf yn codeiddio rhai dyletswyddau cyfraith gyffredin a



dyletswyddau teg y cyfarwyddwyr, ac yn nodi saith o ddyletswyddau cyffredinol y cyfarwyddwyr, sef:-

- gweithredu o fewn pwerau'r cwmni ac yn unol â'i gyfansoddiad, gan ddefnyddio'r pwerau hynny at y dibenion y rhoddwyd iddynt yn unig
- hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd ei aelodau
- arfer barn annibynnol
- arfer gofal rhesymol, medrusrwydd a diwydrwydd
- osgoi gwrthdaro buddiannau
- peidio â derbyn budd-daliadau gan drydydd parti
- datgan diddordeb mewn trafodiad neu drefniant arfaethedig

16. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r cyfarwyddwyr:

- Gydymffurfio bob amser â chod ymddygiad Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer aelodau'r bwrdd, ac â'r rheolau sy'n ymwneud â'r defnydd o arian cyhoeddus, a gwrthdaro buddiannau;
- Peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a gawsant yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er budd personol neu elw gwleidyddol, na cheisio defnyddio'r cyfle a roddir drwy wasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau preifat neu fuddiannau unigolion neu sefydliadau sy'n gysylltiedig â nhw;
- Cydymffurfio â rheolau Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru wrth dderbyn rhoddion a lletygarwch, a phenodiadau busnes; a
- Gweithredu'n ddidwyll ac er budd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru bob amser.

## **Ymddygiad**

17. Ni fydd cyfarwyddwyr na gweithwyr Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw ddatganiadau nac yn cymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad sy'n niweidio neu'n debygol o niweidio neu ddwyn anfri ar enw, delwedd neu enw da Gweinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru. Mae eu swyddi'n amodol ar gydymffurfio â saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus y Pwyllgor Safonau Cyhoeddus.

### *Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus*

- Anhunanoldeb  
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd a hynny'n unig. Ni ddylent weithredu er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall iddynt eu hunain, eu teuluoedd na'u cyfeillion.
- Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain o dan unrhyw ymrwymiad ariannol nac ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

- **Gwrthrychedd**  
Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrwyon a buddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail rhinwedd.
- **Atebolrwydd**  
Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu a fo'n briodol i'w swyddi.
- **Bod yn agored**  
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored ag y bo modd ynglŷn â'r holl benderfyniadau a chamau gweithredu a gymerant. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau ac ni ddylent gyfyngu ar wybodaeth ac eithrio pan fo'n amlwg fod hynny er budd y cyhoedd.
- **Gonestrwydd**  
Mae dyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fudd preifat yn ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.
- **Arweinyddiaeth**  
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.

## **Gwrthdaro Buddiannau**

18. Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr a gweithwyr Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a all, neu a all ymddangos eu bod yn dylanwadu ar eu penderfyniadau wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.
19. Bydd cyfarwyddwyr a gweithwyr Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi bod corff o'r math hwn yn denu diddordeb cyhoeddus sylweddol ac mae'n atebol i Lywodraeth Cymru, drwy Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, am ei stiwardiaeth. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro posibl rhwng eu cyfrifoldebau presennol (neu swyddi blaenorol) a'u cyfrifoldebau o fewn Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

20. Caiff y buddiannau hyn eu cynnwys mewn cofrestr buddiannau a gedwir gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sy'n gorfod sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n gyfredol.
21. Pe bai mater penodol yn arwain at wrthdaro buddiannau, mae'n rhaid i gyfarwyddwyr a gweithwyr Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru hysbysu'r bwrdd o flaen llaw a thynnu'n ôl o drafodaethau neu ystyriaeth o'r mater hwnnw.
22. Anogir cyfarwyddwyr a gweithwyr i gofrestru eu buddiannau eu hunain nad ydynt yn rhai ariannol a buddiannau aelodau agos o'r teulu a phobl sy'n byw yn yr un cartref â nhw sydd â chysylltiad agos â gweithgareddau Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.
23. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i unrhyw gyfarwyddwr neu weithiwr Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ymddiswyddo os yw'n dymuno derbyn swydd sy'n gwrthdaro yn rhywle arall.

## **Trefniadau Cyfrifyddu ac Archwilio**

### ***Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon***

24. Bob blwyddyn ariannol rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru baratoi cyfrifon yn unol â'r gofynion a osodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006. Bydd gofyniad, hefyd, i ddarparu set ddrafft o gyfrifon cyn archwilio at ddibenion cydgrynhoi Llywodraeth Cymru. Caiff amseriad y cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru eu gwneud yn hysbys cyn diwedd pob blwyddyn ariannol a fydd yn galluogi cydymffurfiaeth ag amserlen y Trysorlys sy'n cau'n gynnar. Anfonir copïau electronig o'r cyfrifon wedi eu llofnodi hefyd at Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru.
25. Cyn 15 Mai bob blwyddyn dylai Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyfrifon drafft blynyddol unrhyw is-gwmni neu fenter ar y cyd a reolir gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, neu sy'n eiddo iddo, yn cael eu cydgrynhoi o fewn cyfrifon blynyddol Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.
26. Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn darparu adroddiad o'i weithgareddau i'r Gweinidog i ddangos sut mae wedi cyflawni ei dargedau'n llwyddiannus. Mae'n rhaid i fformat adroddiad y Gweinidog:
  - Amlinellu prif weithgareddau a pherfformiad Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;

- Adrodd ar berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a chyflawniadau eraill ac amlinellu'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan ystyried themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru;
- Adrodd ar weithgareddau unrhyw gyrff corfforaethol sydd dan ei reolaeth; a
- Chynnwys naill ai grynodedeb o gyfrifon archwiliedig Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru neu gyhoeddi'r cyfrifon archwiliedig llawn o fewn un ddogfen.

27. Mae'n rhaid i Fwrdd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sefydlu trefniadau digonol ar gyfer archwilio mewnol, archwilio allanol a materion llywodraethu corfforaethol. Dylai Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru fod wedi paratoi cyfrifon drafft blynyddol erbyn 15 Mai bob blwyddyn. Bydd yr Archwilwyr Allanol yn paratoi eu Hadroddiad Archwilio a Llythyr Rheoli erbyn diwedd mis Mehefin bob blwyddyn. Bydd yr Archwilwyr Allanol yn anfon copi o'u Hadroddiad Archwilio terfynol a Llythyr Rheoli at Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru.

28. O dan Adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gall Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) gynnal ymchwiliadau i economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru wrth iddo ddefnyddio ei adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. O dan adran 145A, gall yr ACC gynnal astudiaethau a luniwyd i'w alluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni swyddogaethau'r gyrff, ac astudiaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau. At ddibenion yr archwiliadau hyn, yn ogystal â'r archwiliad ariannol statudol, mae gan yr ACC hawl statudol i gael mynediad at ddogfennau. Bydd gan yr ACC hawliau mynediad hefyd yn rhinwedd adran 136 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal â hyn, bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn darparu amodau grantiau a chontractau fel y gall yr ACC gael mynediad at ddogfennau a gedwir gan dderbynwyr grant a chontractwyr ac isgontractwyr fel sy'n ofynnol ar gyfer yr archwiliadau hyn; a bydd yn gwneud ei orau glas i sicrhau bod yr ACC yn cael mynediad at unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol gan yr ACC a gedwir gan gyrff eraill.

29. Oni chytunir fel arall, bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn dilyn egwyddorion, rheolau, canllawiau a chyngor Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r ddogfen hon bob amser. Ceir rhestr o'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru gydymffurfio â nhw yn Atodiad 1.

30. Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sicrhau bob amser bod ei berthynas â Llywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn briodol.

31. Pe bai'r angen yn codi, mae gan Bennaeth Is-adran Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd Llywodraeth Cymru yr hawl i gael mynediad at holl gofnodion a staff Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru at ddibenion monitro gan gynnwys, er enghraifft, archwiliadau ac ymchwiliadau gweithredol.

## **Staff Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru**

### ***Recriwtio, cadw a rheoli staff***

32. O fewn y trefniadau a gymeradwywyd gan y Gweinidog, mae Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am recriwtio, penodi, cadw, ysgogi a therfynu staff yn amodol ar y gofynion cyffredinol canlynol:

- Wrth recriwtio, rheoli a datblygu staff, bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn dilyn egwyddorion rheoleidd-dra a phriodoldeb wrth wario adnoddau fel y nodir yn "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru", yn benodol ym Mhennod 4, sy'n ymdrin â rheolaeth fewnol a strwythurau llywodraeth;
- Gall Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru bennu ei strwythur ei hun ac eithrio creu neu ailraddio unrhyw swydd uwch-reolwr sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cadeirydd;
- Gall Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru amrywio cyfanswm ei staff i adlewyrchu newidiadau yng ngraddfa ei weithrediadau neu ei swyddogaethau. Mae'n rhaid i'r cyflogau a'r costau cysylltiedig fod wedi eu haddasu'n unol â hynny a'u hadlewyrchu o fewn y Costau Rhedeg;
- Yn amodol ar ei lefelau dirprwyedig o awdurdod, mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'n creu unrhyw swyddi ychwanegol sy'n arwain at ymrwymadau yn y dyfodol a fydd yn rhagori ar ei allu i dalu amdanynt, oni chytunir ar hynny yn ysgrifenedig gyda Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (ESNR);
- Bydd polisïau rheoli a datblygu staff ar waith sy'n adlewyrchu trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a gwerthuso staff. Bydd y rhain yn cynnwys hyfforddiant a datblygu i annog staff i gael y sgiliau proffesiynol a'r sgiliau rheoli perthnasol, ac unrhyw sgiliau ac ymddygiadau eraill sy'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu swyddogaethau;

- Bydd gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru god ymddygiad ar gyfer ei staff;
- Bydd gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru weithdrefnau cwyno a disgyblu priodol ar waith ynghyd â threfniadau priodol i ymdrin ag unrhyw bryderon staff ynghylch amhriodoldeb;
- Cynhelir ymgynghoriadau ystyrlon gyda staff ar faterion sy'n effeithio arnynt.

### ***Cyflog ac Amodau Gwasanaeth***

33. Bydd pob aelod staff Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn amodol i lefelau cyffredinol o dâl a telerau ac amodau'r gwasanaeth (gan gynnwys pensiwn) fel y'u cymeradwywyd gan y Gweinidog. Mae'n rhaid i'r Gweinidog awdurdodi unrhyw newidiadau i'r telerau a'r amodau hynny, gan gynnwys lefelau cyflog.
34. Nid oes gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru unrhyw bwerau dirprwyedig i ddiwygio ei amodau a'i delerau cyffredinol. Fodd bynnag, gall Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru amrywio contractau unigol heb gytundeb o flaen llaw gan y Gweinidog ar yr amod bod unrhyw newidiadau o fewn fframwaith cyffredinol y telerau a'r amodau wedi eu cymeradwyo gan y Gweinidog.
35. Nodir telerau ac amodau staff Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn ei ddogfennaeth. Mae'n rhaid darparu copïau o'r dogfennau perthnasol i Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR ar gais ac ar ôl eu diwygio.

### ***Cylchoedd Cyflog***

36. Disgwylir i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru weithredu system gyflog sy'n darparu cyfle cyfartal i'r holl staff o ran dyrchafiad.
37. Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru fod yn fodlon bod yr holl drefniadau cyflog wedi bod yn destun archwiliad cyflog cyfartal ac, yn ogystal â hyn, bydd angen tystiolaeth o bryd i'w gilydd y cynhaliwyd trefniadau sicrwydd ansawdd annibynnol sy'n bodloni'r gofyniad hwn.

### ***Budd-daliadau Staff a Gwobrwyon Nad Ydynt yn Gyflog***

38. Pe bai'r angen yn codi, mae gan Gyfarwyddwr Is-adran Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd Llywodraeth Cymru yr hawl i gael mynediad at holl gofnodion a staff Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru at ddibenion monitro gan gynnwys, er enghraifft, archwiliadau ac ymchwiliadau gweithredol.

### ***Pensiynau a chynllun Talu Wrth Ennill***

39. Mae gan staff Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yr opsiwn i ymaelodi â chynllun pensiwn personol.

### ***Diswyddiadau, Taliad Diswyddo ac Iawndal***

40. Mae'n rhaid i unrhyw gynig i dalu iawndal am ddiswyddiad gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig o flaen llaw gan Fwrdd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

### ***Fframwaith Cynllunio***

#### ***Cynllunio Busnes***

41. Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith drafft sy'n nodi amcanion y Llywodraeth, nodau strategol ar gyfer Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, a meysydd ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol. Caiff y llythyr cylch gwaith terfynol ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl, a bydd yn cynnwys y ffigur cyllido a'r cyfansymiau rheoli cyllidebau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Cyhoeddir llythyr cylch gwaith ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

42. Bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn llunio Cynllun Busnes blynyddol. Mae'n rhaid i'r Cynllun Busnes gael ei ddatblygu o fewn y fframwaith polisi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru gan gwmpasu cyfnod o ddwy flynedd ariannol. Cynhyrchir Cynlluniau Busnes treiglol dilynol ddwy flynedd ar ôl cael llythyr cylch gwaith gan y Gweinidog bob blwyddyn.

43. Bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn paratoi cynllun gweithredol blynyddol sy'n nodi lefel y gwasanaeth sydd yn rhaid ei gyflawni mewn meysydd allweddol a chaiff gwybodaeth perfformiad a chynnyrch eu casglu i fonitro'r cynnydd. Caiff y cynllun gweithredol ei hysbysebu drwy lythyr cylch gwaith y Gweinidog, agenda strategol Llywodraeth Cymru a Chynllun Busnes Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Y bwrdd sy'n penderfynu ar union gynnwys ei gynllun. Caiff yr amserlen ar gyfer paratoi a chyflwyno'r cynlluniau busnes a'r cynlluniau gweithredol eu cytuno gyda'r Gweinidog. Caiff y cynlluniau busnes a'r cynlluniau gweithredol eu cymeradwyo gan y Gweinidog.

### ***Rheoli Perfformiad***

44. Bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gweithredu systemau rheoli, gwybodaeth a chyfrifyddu sy'n ei alluogi i adolygu ei berfformiad ariannol ac anariannol yn erbyn y targedau a nodir yn y cynlluniau corfforaethol a gweithredol mewn modd amserol ac effeithiol. Bob chwarter, bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn darparu adroddiad i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n nodi'r cynnydd tuag at gyrraedd y targedau allweddol a nodir yn y cynllun gweithredol. Hefyd, mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion y gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn erbyn y cyllidebau a gymeradwywyd ynghyd â ffigurau rhagolygon gwariant ar gyfer y flwyddyn ac esboniadau am unrhyw wahaniaethau a materion arwyddocaol. Lle bo modd, bydd y fformat adrodd yn gyson â threfniadau Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd i'w fwrdd.

45. Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru hysbysu Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru cyn gynted ag y daw'n amlwg:

- Bod gwariant y flwyddyn gyfan yn debygol o ragori ar y ddarpariaeth a gymeradwywyd; neu
- Ei fod yn debygol o dan wario mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 10 y cant o'r ddarpariaeth flynyddol.

46. Bydd hefyd yn darparu:

- Adroddiad blynyddol o'r colledion sydd wedi eu dileu a'r taliadau arbennig a wnaed neu a gymeradwywyd yn ystod y deuddeg mis blaenorol;
- Adroddiad blynyddol sy'n amlinellu pob achos o dwyll a lladrad sydd wedi digwydd



47. Gall Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd.

*Is-gwmnïau a Mentrau ar y Cyd*

48. Ni fydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn sefydlu is-gwmnïau neu fentrau ar y cyd sy'n cynnwys sefydlu cerbydau diben arbennig – megis cwmnïau, partneriaethau neu unrhyw strwythur arall â hunaniaeth ac atebolrwydd cyfreithiol – heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig o flaen llaw gan y Gweinidog.

49. Bydd unrhyw is-gwmni neu fenter ar y cyd a reolir neu sy'n eiddo i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn amodol ar y rheolaethau a'r gofynion a nodir mewn canllawiau a chyfarwyddiadau perthnasol.

## **Cyfrifoldebau Ariannol**

### **Gwariant**

50. Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodwyd gan y llythyr cylch gwaith, gan gyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru, neu gan y cytundeb hwn, gall Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, cyn gynted ag y cymeradwyir ei gyllideb gan y Gweinidog, gyflawni gwariant ar y rhaglen a gymeradwywyd yn ei gyllideb flynyddol heb gyfeiriad pellach at y Gweinidog, yn amodol ar y canlynol:

- Bod Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r dirprwyaethau a nodir yn Atodiad 2. Mae'n rhaid peidio ag addasu neu dorri'r dirprwyaethau heb gytundeb ysgrifenedig o flaen llaw gan Lywodraeth Cymru
- Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru cyn bwrw ymlaen gydag:
  - unrhyw newid polisi neu arfer sydd â goblygiadau ariannol eang;
  - unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau y bydd eu hangen y dyfodol; neu
  - unrhyw newid sylweddol yng ngweithrediad neu gyllid unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd drwy'r cynllun gweithredol;
- Bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn dilyn y camau a nodir yn Atodiad 3 i'r cytundeb hwn o ran caffael nwyddau a gwasanaethau;
- Bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gwrthsefyll ceisiadau am daliadau o flaen llaw (h.y. taliadau cyn cael gwerth cyfatebol yn gyfnewid). Os oes modd cael gwerth da am arian, gellir gwneud yr eithriadau canlynol:

- contractau gwasanaeth a chynnal a chadw sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i dalu pan fydd y contract yn dechrau, ar yr amod bod y gwasanaeth ar gael ac y gellir galw amdano o ddyddiad y taliad ymlaen;
- gwasanaethau mân megis cyrsiau hyfforddi neu bresenoldeb mewn cynadleddau, lle bo disgrisiwn lleol yn dderbyniol; a
- thaliadau i ymgymerwyr statudol lle bo taliad o flaen llaw yn amod ar gyfer rhaglennu'r gwaith;

### ***Benthyca, Rhoi Benthyg, Gwarantau a Buddsoddiadau***

51. Ni fydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol, heb sicrhau cytundeb ysgrifenedig y Gweinidog o flaen llaw:

- Benthyca (gan gynnwys cyfleusterau benthyca dros dro ar ffurf cyfleuster gorddrafft sydd wedi ei drefnu o flaen llaw i gau unrhyw fylchau rhwng trefniadau benthyca tymor hir);
- Rhoi benthyg;
- Codi tâl am unrhyw asedau neu ddiogelwch;
- Rhoi unrhyw warant neu indemniadau; llythyrau o gysur; neu
- Ysgwyddo unrhyw atebolrwydd amodol arall yn fwriadol boed ar ffurf gyfreithiol rwymol neu beidio.

52. Ac ni fydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw fuddsoddiadau heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig y Gweinidog o flaen llaw ac eithrio adneuon tymor byr o wargedau arian parod.

### ***Grantiau i Drydydd Parti***

53. Dylid talu grantiau (at ddibenion penodol er mwyn cyflawni nodau strategol Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru fel y nodir gan y Gweinidog ac sy'n bodloni'r amodau penodol; cynllun grant) gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i drydydd parti ar ôl dangos tystiolaeth o angen neu gymhwyster, yn dibynnu ar delerau'r cynllun grant. Er enghraifft:

- Efallai y bydd angen i'r derbynnydd trydydd parti gyflwyno cais am dystiolaeth o gymhwysedd;
- Efallai y bydd angen i'r derbynnydd trydydd parti ddangos ei fod yn bodloni amodau'r cynllun grant;
- Efallai y bydd amodau sy'n gysylltiedig ag amseru; ac
- Efallai y bydd angen i'r derbynnydd trydydd parti ddangos gofyniad gweithredol clir am arian cyn y telir y grant gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

54. Mae Cadeirydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai sy'n derbyn grantiau trydydd parti yn gymwys ac yn defnyddio'r grant yn y ffordd a ragwelir yn y cynllun grant. Ar gyfer pob cynllun grant, mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru nodi telerau ac amodau priodol i'w cymeradwyo gan y Gweinidog. Dylai'r telerau a'r amodau sicrhau cydbwysedd priodol rhwng:

- Sicrhau bod y grant yn cael ei reoli'n ddarvoudus;
- Sicrhau gwerth am arian; a
- Sicrhau'r Gweinidog bod grantiau'n cael eu defnyddio fel y'u rhagwelwyd.

55. Mae'n rhaid i delerau ac amodau unrhyw gynllun grant a weithredir gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru atgyfnerthu hawliau mynediad Archwilydd Cyffredinol Cymru, ynghyd â hawl mynediad ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru a Chwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

56. Dylai Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sicrhau bod buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru yn cael eu diogelu'n ddigonol gan delerau ac amodau unrhyw gynllun grant a'u bod yn caniatáu i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth Cymru adfachu mewn rhai amgylchiadau e.e. os defnyddir grant gan drydydd parti at ddibenion heblaw'r rhai a gymeradwywyd.

57. Ni ddylai Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ddatblygu neu weithredu cynllun grant heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan y Gweinidog.

### **Cyllid**

58. Dylai'r holl ffrydiau incwm yn y paragraffau canlynol ('Incwm o Ffynonellau'r Trysorlys' ac 'Incwm nad yw o Ffynonellau'r Trysorlys') gael eu trin fel cronfeydd cyhoeddus a bydd gofynion y ddogfen hon yr un mor berthnasol iddynt.

### ***Incwm o Ffynonellau'r Trysorlys***

59. Mae Gweinidogion Cymru yn darparu taliadau cyllid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Telir cyllid mewn rhandaliadau, ar sail cais i Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR. Mae'n rhaid i hyn gael ei ddarparu ar ffurf datganiad ariannol fel y nodir yn y ffurflen tynnu arian i lawr a gyflwynwyd gan yr unigolyn a hysbysir i Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR a awdurdodwyd i wneud y cais.

### ***Incwm Nad yw o Ffynonellau'r Trysorlys***

60. Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru geisio manteisio i'r eithaf ar ei dderbyniadau o ffynonellau ar wahân i'r Trysorlys pan fo hyn yn gyson â'i swyddogaethau ac yn unol â'i fusnes a'i gynlluniau gweithredol cymeradwy.

### ***Cronfeydd preifat***

61. Ystyrir rhoddion, grantiau ar gyfer ymchwil gan sefydliadau nad ydynt yn gyhoeddus, neu gymynroddion a roir i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gronfeydd preifat ac ni chwmpesir y rhain gan delerau'r ddogfen hon. Nid yw arian uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, adrannau eraill y llywodraeth, asiantaethau a sefydliadau cyhoeddus eraill neu rai a ariennir yn bennaf gan y trethdalwr ac unrhyw elw o fuddiannau masnachol Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cyfrif fel cronfeydd preifat.

### ***Rheoli Arian Parod***

62. Mae'n rhaid i falansau arian parod sydd wedi cronni yn ystod y flwyddyn ariannol o gronfeydd neu gyllidebau eraill y Trysorlys gael eu cadw ar y lefel isaf sy'n gyson â gweithredu effeithlon Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Os bydd gwarged arian parod yn digwydd, bydd yn rhaid ei roi ar adnau nes y gellir ei ddefnyddio. Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru geisio osgoi cynnal balans gweithio sy'n fwy na chyfwerth o 4 y cant o gyfanswm ei gyllideb grynsyth flynyddol. Caiff unrhyw arian a gedwir gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sy'n rhagori ar y swm hwnnw fel balans gweithio ar ddiwedd pob cyfnod cyllido ei ystyried wrth benderfynu swm y cyllid i'w dalu yn ystod y cyfnod canlynol.

63. Caiff Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru gario unrhyw falans sydd wedi ei dynnu ond heb ei wario, hyd at 2 y cant o gyfanswm ei gyllideb grynsyth flynyddol y cytunwyd arni, drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf (h.y. fel y nodir yn y llythyr cylch gwaith, heb gynnwys incwm a ystyrir yn gronfeydd preifat). Bydd yn rhaid i Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR gytuno'n ysgrifenedig fesul achos i unrhyw gynnig i gario symiau drosodd sy'n fwy na'r swm hwn. Bydd unrhyw swm a gaiff ei gario drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno'n cael ei ystyried yng nghyllid y flwyddyn ddilynol.

64. Os yw'r derbynebaw a gyflawnir neu y disgwylir iddynt gael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd, mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sicrhau gostyngiad cyfatebol yn ei daliadau crynsyth fel na ragorir ar ei ddarpariaeth awdurdodedig.

65. Os yw'r derbynebaw a gyflawnir neu y disgwylir iddynt gael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol yn fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd, gall Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru wneud cais i Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR i gadw'r incwm dros ben ar gyfer gwariant ychwanegol penodedig.
66. Gall Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ailddyrannu cronfeydd rhwng ei gyllidebau amrywiol heb ganiatâd o flaen llaw gan Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR, fel yr hysbyswyd gan y Gweinidog yn y llythyr cylch gwaith dan yr amodau canlynol:
- nid oes cyllideb wedi cynyddu neu ostwng mwy na 10 y cant
  - nid yw'r ailddyraniad rhwng llinellau cyllideb cyfalaf sydd bron yn arian parod neu nad ydynt yn arian parod; ac
  - gyda'i gilydd, nid yw taliadau net Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn fwy na chyfanswm y Gyllideb a gymeradwywyd.
67. Er gwaethaf yr uchod, ni all Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru gynyddu'r costau rhedeg/y gyllideb weinyddu heb ganiatâd ysgrifenedig Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR o flaen llaw.
68. Mae'n rhaid i'r holl log a enillir gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar ei falansau banc ac arian parod sy'n codi o ganlyniad i gyllid gan Lywodraeth Cymru, heb gynnwys costau banc, gael ei ddatgan bob mis ar ffurflen gais hawlio cyllideb Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a chaiff ei ildio i Lywodraeth Cymru.

## **Gofynion Ariannol eraill**

### ***Rheoli Risg***

69. Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth rheoli risg i sicrhau ei fod yn ymdrin ag unrhyw risgiau y mae'n eu rhagdybio yn unol ag agweddau perthnasol canllawiau ar arferion gorau mewn llywodraethu corfforaethol.
70. Mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru fabwysiadu a gweithredu polisïau ac arferion i ddiogelu ei hun rhag twyll a lladradau.
71. Bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cymryd camau rhesymol i arfarnu sefyllfa ariannol unrhyw gwmni neu gorff arall y mae'n bwriadu gwneud contract ag ef neu roi grantiau neu gyllid iddo, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r caffaeliad neu'r cynllun grant penodol.

72. Er mwyn sicrhau gwerth am arian, mae'n rhaid bod gan Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru systemau priodol ar waith a'r gallu i sicrhau bod ei bolisiau a'i raglenni'n seiliedig ar dystiolaeth o ran datblygiad, gweithrediad ac arfarniad.

73. Hefyd, mae'n rhaid i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sicrhau y bydd ei ddull o gynnal gwerthusiadau ac arfarniadau yn gwbl gyson â'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau.

Cymeradwywyd telerau'r Ddogfen Fframwaith hon gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar [dyddiad cychwyn].

Llofnod..... Swyddog      Cyfrifyddu  
Ychwanegol Llywodraeth Cymru dros Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

Dyddiad.....

## Atodiad 1

### Rhestr gyfeirio ar gyfer Canllawiau Corfforaethol a Chyfarwyddiadau Llywodraeth Gyfan

- Y ddogfen hon;
- Llythyr Cylch Gwaith blynyddol y Gweinidog i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru;
- Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru;
- Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus;
- Nodau ac Egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Da;
- “Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth”, Trysorlys EM;
- “Rheoli'r Risg o Dwyll”, Trysorlys EM;  
[http://www.hm-treasury.gov.uk/d/managing\\_the\\_risk\\_fraud\\_guide\\_for\\_managers.pdf](http://www.hm-treasury.gov.uk/d/managing_the_risk_fraud_guide_for_managers.pdf)
- “Executive NDPBs - Annual Reports and Accounts Guidance”, Trysorlys EM;
- “Departmental Banking: A Manual for Government Departments” (cyhoeddwyd fel Atodiad 5.7 i “Managing Public Money”, Trysorlys EM);  
[http://www.hm-treasury.gov.uk/d/mpm\\_annex5.7.pdf](http://www.hm-treasury.gov.uk/d/mpm_annex5.7.pdf)
- “Regularity, Propriety and Value for Money”, Trysorlys EM  
[http://www.hm-treasury.gov.uk/d/Reg\\_Prop\\_and\\_VfM-November04.pdf](http://www.hm-treasury.gov.uk/d/Reg_Prop_and_VfM-November04.pdf)
- “Green Book – Appraisal and Evaluation in Central Government”; Trysorlys EM;  
[http://www.hm-treasury.gov.uk/d/green\\_book\\_complete.pdf](http://www.hm-treasury.gov.uk/d/green_book_complete.pdf)
- Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM;  
<http://www.hm-treasury.gov.uk/d/auditcommitteehandbook140307.pdf>
- “Magenta Book – Guidance Notes on Public Evaluation”, Swyddfa'r Cabinet;  
[http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/magenta\\_book/index.asp](http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/magenta_book/index.asp)  
<http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/docs/profpolicymaking.pdf>
- Cod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Cyrff Cyhoeddus;
- “Guidelines for Good Practice in Evaluation”, Cymdeithas Werthuso'r DU;  
<http://www.evaluation.org.uk/resources/guidelines.aspx>

- “Code of Practice for Official Statistics” Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig a'i brotocolau cysylltiedig;  
<http://www.statisticsauthority.gov.uk/assessment/code-of-practice/code-of-practice-for-official-statistics.pdf>
- “Revitalising Health and Safety” y Comisiwn Iechyd a Diogelwch/Adran yr Amgylchedd a'r Rhanbarthau;  
<http://www.hse.gov.uk/revitalising/strategy.pdf>
- Llythyrau'r “Prif Swyddog Gweithredwr” sy'n bodoli;
- Llythyrau “Annwyl Swyddog Cyfrifo” sy'n bodoli;
- Llythyrau “Annwyl Swyddog Cyfnerthu” sy'n bodoli;
- Llythyrau rheoli gan archwilwyr allanol;
- Cyfarwyddiadau perthnasol eraill a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru;
- Yr argymhellion gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, Pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol; Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Gyfrifon Cyhoeddus, Pwyllgorau Seneddol neu awdurdod Seneddol eraill sydd wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru ac sy'n berthnasol i Gwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â hyn, wrth gynnal ei fusnes bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn sicrhau:

- Ei fod yn ategu telerau Safonau Iaith Llywodraeth Cymru (yn benodol yn yr adrannau ar weithio mewn partneriaeth a gweithio trydydd parti);
- Ei fod yn arfer ei swyddogaethau gan roi ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb;
- Ei fod yn mabwysiadu ac yn cynnal cynllun, sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth sy'n ofynnol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;
- Ei fod yn arfer ei swyddogaethau mewn modd sy'n gydnaws â dyletswydd Gweinidog Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a'i egwyddor sylfaenol o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol;
- Ei fod yn arfer ei swyddogaethau gan roi ystyriaeth ddyledus i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar Anabledd; Rhywedd; a Chydraddoldeb Hiliol;
- Ei fod yn rhoi ystyriaeth ddyledus i God Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrrff Cyhoeddus y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus;



- Bod pob caffaeliad yn cael ei gyflawni gan roi ystyriaeth ddyledus i'r egwyddorion a nodir yng Nghanllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru.
- Ei fod yn cofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolwr data mewn cysylltiad â'r data personol y mae'n ei brosesu o dan y cytundeb hwn ac, fel rheolwr data, ei fod yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998

O ran iechyd, diogelwch a lles, mae'n rhaid i'r cwmni:

- Gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol perthnasol o ran iechyd, diogelwch a lles fel y maent yn ymwneud â'i holl swyddogaethau, prosiectau, rhaglenni a gweithgareddau;
- Ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau y mae'n eu hariannu ac unrhyw gontractwyr ac isgontractwyr y sefydliadau hynny i gydymffurfio yn yr un modd;
- Cydymffurfio'n llawn â pholisi Llywodraeth y DU ar iechyd, diogelwch a lles.

## Atodiad 2

### Crynodeb o'r Gofynion Cymeradwyo a'r Terfynau Dirprwyo

<b>Pwnc</b>	<b>Terfyn Dirprwyo</b>
Cadeirydd	<b>Cymeradwyaeth Weinidogol</b>
Tâl staff a thelerau ac amodau	<b>Rhaid i newidiadau i delerau ac amodau cyffredinol gael cymeradwyaeth Weinidogol</b>
Trefniadau pensiwn a thaliadau diswyddo neu iawndal	<b>Cymeradwyaeth Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR</b>
Cynllun Corfforaethol a Gweithredol	<b>Cymeradwyaeth Weinidogol</b>
Is-gwmnïau a Mentrau ar y Cyd	<b>Cymeradwyaeth y Gweinidog</b>
Trosglwyddo arian y tu allan i'r terfynau a bennwyd	<b>Cymeradwyaeth Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR</b>
Cynigion newydd, dadleuol neu rai sydd ag ôl-ffeithiaul	<b>Cymeradwyaeth Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR</b>
Unrhyw fenthyca, rhoi benthyg, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiad	<b>Cymeradwyaeth y Gweinidog</b>
Prosiectau cyfalaf	<b>£10m</b>
Prosiectau TG	<b>£100k</b>
Contractau ymgynghori	<b>£1m</b>
Ymadawiadau tendr sengl	<b>£25k</b>
Cadw derbynebaw uwchben y terfyn a nodir yn llythyr cylch gwaith	<b>Cymeradwyaeth Grŵp Cyllid a Gweithrediadau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ESNR</b>
Cario drosodd	<b>Yn ystod y flwyddyn – 4% o gyfanswm y gyllideb gryswth flynyddol Diwedd blwyddyn – 2% o gyfanswm y gyllideb gryswth flynyddol</b>
<b>Grantiau</b>	<b>Caniatâd Gweinidogol</b>

### Atodiad 3

#### Caffael a Thaliadau Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

##### Caffaeliad

1. Bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â rheoliadau caffael yr UE, ac yn sicrhau gwerth gorau gan ddefnyddio fframweithiau sector cyhoeddus lle maent yn hygyrch ac yn briodol. Os nad yw'r fframwaith yn briodol neu'n hygyrch, yna bydd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn dilyn y broses gaffael a amlinellir isod.

#### **PWYSIG: Dylid dilyn y camau caffael hyn yn unig os nad oes fframwaith addas**

##### **arall ar gael**

#### Contractau sy'n werth hyd at £4999 ar gyfer Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Waith

Bydd y Cwmni Trafnidiaeth:

- Yn cael awdurdod ariannol ysgrifenedig i ymrwymo gwariant gan un aelod o'r Bwrdd
- Yn datblygu manyleb ar gyfer y gofyniad;
- Yn cael dyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr unigol;
- Yn dyfarnu'r contract

#### Contractau sydd werth rhwng £5000 a £24,999 ar gyfer Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Waith

Bydd y Cwmni Trafnidiaeth:

- Yn cael awdurdod ariannol ysgrifenedig i ymrwymo gwariant gan ddau aelod o'r bwrdd
- Yn datblygu manyleb ar gyfer y gofyniad;
- Yn cael dyfynbrisiau ysgrifenedig gan **o leiaf** dri chyflenwr; gan sicrhau bod hysbyseb yn cael ei gosod ar wefan GwerthwchiGymru
- Yn gwerthuso dyfynbrisiau yn erbyn y meini prawf yn y fanyleb.
- Yn dyfarnu'r contract

Contractau sydd werth rhwng £25,000 a £172,514 ar gyfer Cyflenwadau a Gwasanaethau, neu £4,322,012 ar gyfer Gwaith

Bydd y Cwmni Trafnidiaeth:

- Yn cael awdurdod ariannol ysgrifenedig i ymrwymo gwariant gan ddau aelod o'r bwrdd
- Yn datblygu manyleb ar gyfer y gofyniad;
- Yn cael dyfynbrisiau ysgrifenedig gan **o leiaf** dri chyflenwr; gan sicrhau bod hysbyseb yn cael ei gosod ar y wefan GwerthwchiGymru
- Yn gwerthuso tendrau yn erbyn y meini prawf yn y fanyleb.
- Yn dyfarnu'r contract

Contractau sy'n werth dros £172,514 ar gyfer Cyflenwadau a Gwasanaethau, neu £4,322,012 ar gyfer Gwaith

Bydd y Cwmni Trafnidiaeth:

- Yn sicrhau y glynir at broses Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd
- Yn cael awdurdod ariannol ysgrifenedig i ymrwymo gwariant gan ddau aelod o'r bwrdd neu un aelod o'r bwrdd a'r Cadeirydd ar gyfer contractau dros £172,514
- Yn datblygu manyleb ar gyfer y gofyniad
- Yn cael dyfynbrisiau ysgrifenedig gan **o leiaf** tri chyflenwr; gan sicrhau bod hysbyseb yn cael ei gosod ar y wefan GwerthwchiGymru
- Yn gwerthuso tendrau yn erbyn y meini prawf yn y fanyleb
- Yn cyhoeddi bwriad i ddyfarnu
- Yn dyfarnu'r contract

Bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo unrhyw wyro oddi wrth y gweithdrefnau hyn.

Yn ogystal â glynu at y prosesau uchod, bydd y Cwmni Trafnidiaeth:

- Yn sicrhau y cedwir cofnodion priodol o'r dogfennau caffael
- Yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau i'r Bwrdd gan gadw'r blaidd sydd wedi gwrthdaro y tu allan i broses tendro Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru
- Yn sicrhau nad yw contractau'n cael eu rhannu'n artiffisial er mwyn osgoi rhagori'r trothwyon

## Taliadau

2. Mae'r gofynion awdurdodiad canlynol yn berthnasol ar gyfer ysgwyddo gwariant ar gyfer taliadau gwaith fframwaith neu waith nad yw'n waith fframwaith:
  - a. Ar gyfer gwerthoedd hyd at £4,999, mae angen awdurdod gan un aelod o'r Bwrdd.
  - b. Ar gyfer gwerthoedd rhwng £4,999 a £172,514, mae angen awdurdod gan ddau aelod o'r Bwrdd.
  - c. Ar gyfer taliadau dros £172,514, mae'n rhaid cael awdurdod gan y Cadeirydd ac un aelod arall o'r Bwrdd.
  
3. Ar ôl cymeradwyo, gellir anfon archeb at y cyflenwr
  
4. Ar ôl cwblhau'r gwaith, gall unrhyw unigolyn uwch yng Nghwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y gwaith yn foddhaol, heb gynnwys y rhai sy'n awdurdodi gwariant.
  
5. Gwneir taliadau drwy siec neu drosglwyddiad banc a anfonir yn uniongyrchol at y sawl sy'n cael ei dalu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys. Gall unrhyw aelod awdurdodedig o'r Bwrdd lofnodi sieciau, oni bai eu bod wedi cadarnhau bod y gwaith wedi ei gwblhau'n foddhaol.